Myfyrdodau Byrion ar Ferched yr Hen Destament: Ruth a Naomi

Naomi

Ruth 1: 2-5, 20-22 a 4: 13-17

Mewn ychydig adnodau mae Naomi'n cael ei stripio o bopeth sydd yn annwyl ganddi: ei gwreiddiau ym Methlehem Jwda; ei gŵr Elimelech, a'i meibion Mahlon a Chilion. Yn ei galar penderfyna fynd yn ôl at ei theulu a'i phobl i'w chynefin. Nid oedd dim diben bellach aros yn Moab. Daeth y ddwy ferch-yng-nghyfraith, Orpa a Ruth i'w dilyn.

Yn yr ychydig eiriau cyntaf (Ruth 1: 8), dymuniad Naomi yw danfon Orpa a Ruth i ffwrdd ... ar iddynt fynd a gadael llonydd iddi yn ei gofid a'i galar. Merched-yng-nghyfraith – maent yn ei hatgoffa o'r gŵr a'r meibion a gollwyd ganddi. Bron y gellid dweud fod y ddwy fel halen yn y briw. Ond, y tro nesaf mae Naomi'n siarad, ar ôl i Orpa a Ruth ddangos eu cariad a'u consyrn drosti, fe ddaw Naomi'n fam o'r newydd, yn pryderu am les a dyfodol y ddwy. Nid merched-yng-nghyfraith ydynt mwyach ond merched! (Llun: *Ruth And Naomi* gan Julius Hubner 1806-1882)

Fe drodd Orpa yn ôl tua Moab at ei phobl. Mae Ruth yn mynnu aros. Wedi cyrraedd Bethlehem, cafodd Naomi groeso cynnes gan ei chymdogion; ac fel ateb i'w cwestiynau meddai, "*Peidiwch am galw'n Naomi* (Hyfrydwch) *ond Mara* (Chwerwedd)*, oherwydd bu'r Hollalluog yn chwerw iawn wrthyf. Yr oeddwn yn llawn wrth fynd allan, ond daeth yr Arglwydd a mi'n ôl yn wag*" (Ruth 1: 20-21)

Sylwch yn ofalus ar y geiriau olaf. Mae'r frawddeg yn dechrau gyda Naomi, "*Yr oeddwn...*", ond yn gorffen gyda'r "*Arglwydd*" yn ei harwain adref. Mae'r boen mor real ag erioed, mae ganddi gant a mil o gwestiynau heb eu hateb ond mae hi'n gwybod at bwy i daflu'r cwestiynau! Mae'n gwybod ar bwy i sgrechian ei phoen a'i dolur – y Duw hwn a'i harweiniodd adref. Wedi cyrraedd Bethlehem, mae taith arall ond yn megis dechrau i Naomi, y daith o Chwerwedd yn ôl i Hyfrydwch.

Cymorth ni i gredu, Arglwydd, hyd yn oed pan na fedrwn ddeall; ac yng nghanol holl droeon dyrys ein byw cadarnha ein ffydd mai Tydi sy'n trefnu'r daith. Amen

Ruth

Ruth 1:16-18, 2:10-13

Mae Ruth yn un o gymeriadau mwyaf prydferth y Beibl. Ystyr enw Ruth yw ffrind, cyfaill. 'Roedd dyfnder rhyfeddol i'w chyfeillgarwch, ac ymgysegriad – 'roedd yn well ganddi fentro i wlad ddieithr, i ganol pobl newydd, derbyn ac addoli Duw gwahanol, wynebu'r tlodi a chaledi anorfod yn hytrach na mynd yn ôl at ei theulu, a'i phobl a'i ffrindiau, i'w chynefin. 'Roedd yn well ganddi fod yng nghwmni Naomi doed a ddelo, na byw hebddi. Dim ond y cariad a fu rhwng Dafydd a Jonathan sydd i'w gymharu â'r cariad sydd yn cydio'r ddwy yma wrth ei gilydd. (Llun: *Ruth and Naomi* gan He Qi (*gan.* 1953))

Yn ôl pob tebyg cafodd Llyfr Ruth ei sgrifennu yn yr un cyfnod â Llyfr Jona, a chredir mai'r un pwrpas a diben oedd ac sydd i'r ddau. Pwysleisio y dylai crefydd fod yn ddigon mawr, digon cryf i groesawu pobl o genhedloedd eraill. Yn lle bod crefydd yn crebachu meddwl pobl, dylai ledu ei orwelion. Dyna rôl Boas yn y stori! Y bonheddwr a ofalodd fod Naomi a Ruth yn cael lloffa yn amser y cynhaeaf. O dipyn i beth fe enillodd Ruth galon Boas. Ganwyd iddynt fab, Obed. Trwyddo bendithiwyd y genedl, oherwydd ef oedd tad Jesse, a Jesse oedd tad y Brenin Dafydd.

Mewn ystyr real iawn mae Ruth llawn gymaint o arloeswr crefyddol ag Abraham. Fe drodd hwnnw ei gefn ar hen fyd a ffordd o fyw i ddarganfod ffydd newydd. Mae Ruth hefyd yn gadael ei chynefin, teulu a chydnabod a dewis dod, a bod, yn rhan o deulu Abraham. Mae awdur Llyfr Ruth yn mynegi hynny'n ddistaw bach ... cymharwch alwad Abraham: "*Dywedodd yr Arglwydd wrth Abram, "Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a ddangosaf i ti."*" (Genesis 12: 1) â geiriau Boas wrth Ruth *"... fel y gadewaist dy dad a'th fam a'th wlad enedigol, a dod at bobl nad oeddit yn eu hadnabod o'r blaen*." (Ruth 2: 12).

Mae stori Ruth y Foabes yn rhan annatod o hanes holl ddisgynyddion Abraham.

Arglwydd, cyfoethoger fy mhrofiad ysbrydol, a thrwy hynny defnyddia fi i dywys eraill i gyffelyb brofiad. Amen